Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga

Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Dear Cynghorwyr,

**CABINET**

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **Steve Greenslade Room, County Hall, Usk** ar **Dydd Mercher, 6ed Rhagfyr, 2017,** am **2.00 pm.**

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

2. Datganiadau o Fuddiant

3. Ystyried adroddiadau gan y Pwyllgorau Dethol (dim)

4. I ystyried yr adroddiadau canlynol (copdau ynghlwm):

i. **Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy Drafft** 1 - 78

Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un

Diben: I geisio cefnogaeth Cabinet am Adroddiad Adolygu Drafft y Cynllun Datblygiad Lleol (CDLl), gyda'r nod o'i gyhoeddi am ddibenion ymgynghori.

Bydd yr ymatebion ymgynghori'n cael eu bwydo i mewn i'r Adroddiad Adolygu terfynol a bydd yn helpu penderfynu os a sut ddylai'r CDLl gael ei adolygu yn y dyfodol. Bydd yr Adroddiad Adolygu a'r penderfyniad ynglŷn ag adolygu'r CDLl yn ddarostyngedig i adroddi gwleidyddol ar wahân yn gynnar yn 2018.

Awdur: Mark Hand (Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle);
Rachel Lewis (Rheolwr Polisi Cynllunio)

Manylion Cyswllt: markhand@monmouthshire.gov.uk;
rachellewis@monmouthshire.gov.uk

ii. **Adroddiad Gwerthuso Diogelu Ebrill - Hydref 2017** 79 - 120
Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un

Diben: Gwerthuso gweithrediad blaenoriaethau diogelwch allweddol Cyngor Sir Fynwy, yng nghyfnod Ebrill – Hydref 2017, gan ddefnyddio

mesurau adnabyddedig er mwyn tanlinellu gwelliant, adnabod risgiau a nodi camau a blaenoriaethau gwella clir ar gyfer datblygiad pellach.

I roi gwybod i Aelodau Cabinet am effeithlonrwydd diogelwch yn Sir Fynwy a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn cefnogi dibenion y Cyngor i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed a chamdriniaeth.

I roi gwybod i aelodau Cabinet am y gwaith sy'n cael ei wneud tuag at gwrdd â'r safonau ym Mholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor cafodd ei gymeradwyo gan Gyngor yng Ngorffennaf 2017.

Awdur: Grŵp Diogelu'r Holl Awdurdod

Manylion Cyswllt: cathsheen@monmouthshire.gov.uk

iii. **Ail-Ddarpariaeth Severn View, adeilad cartref preswyl newydd - Ffordd Crick** 121 - 160

Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un

Diben: Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r achos cychwynnol am ddatblygu cartref preswyl newydd yn lle'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yng Nghartref Preswyl Severn View yng Nghas Gwent. Cyfle unigryw yw'r datblygiad hwn i Sir Fynwy arwain model newydd o ofal preswyl o fewn y sir a'r wlad sy'n seiliedig ar ddyluniad adeilad pwrpasol a model staffio pwrpasol sy'n cefnogi'r ansawdd bywyd uchaf bosib i bobl sydd angen gofal 24 awr sy'n byw gyda dementia. Mae'r adroddiad yn esbonio'r rhesymau sy'n tanategu'r angen am y datblygiad hwn, yr opsiynau sydd ar gael ond yn benodol yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau cam nesaf y prosiect.

Awdur: Colin Richings – Rheolwr Gwasanaethau Integredig [Y Fenni] ac Arweinydd Gwasanaethau Gofal Uniongyrchol

Manylion Cyswllt: colinrichings@monmouthshire.gov.uk

iv. **Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Plant: Cymorth Cynnar Amlasiantaeth a Llwybr Atgyfeirio Atal ac Ymyrraeth yn cynnwys Adlinio'r Gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)** 161 - 182

Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un

Diben: Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno achos i adlinio'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu o fewn y strwythur gwasanaethau cefnogi teuluoedd ehangach i gwrdd ag anghenion y boblogaeth leol yn fwy effeithiol ac i gyfrannu at ddarpariaeth Sir Fynwy o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru (2014) (SSW-bWA)

Awdur: Charlotte Drury

Manylion Cyswllt: charlottedrury@monmouthshire.gov.uk

v. **Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Plant - Tîm Lleoli a** 183 -

| | | |
|---|---|---|
| | **Chefnogi**<br>Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un<br><br>Diben: I gynnig manylion adluniad arfaethedig o fodel darparu Gwasanaethau Plant Sir Fynwy yn benodol mewn perthynas â'r Tîm Lleoli a Chefnogi (PAST).<br><br>I danlinellu gwelliant mewn perthynas â'r targedau cafodd eu nodi o fewn yr achos busnes cychwynnol a gymeradwywyd yn flaenorol gan Gabinet gan gynnwys braslun o'r camau nesaf.<br><br>Awdur: Rhian Evans<br><br>Manylion Cyswllt: Rhianevans@monmouthshire.gov.uk | 204 |
| vi. | **Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Plant - Gweithlu**<br>Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un<br><br>Diben: I gynnig crynodeb o gynigion gweithlu i'r Cabinet am gam nesaf Rhaglen 'Darparu Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Plant".<br><br>I gyflwyno sail y dystiolaeth a'r achosion busnes i gefnogi'r cynigion.<br><br>Awdur: Jane Rodgers<br><br>Manylion Cyswllt: janerodgers@monmouthshire.gov.uk | 205 - 232 |
| vii. | **Sylfaen Treth y Cyngor 2018/19 a materion cysylltiedig**<br>Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un<br><br>Diben: I gytuno ffigwr sylfaen Treth Cyngor i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r gyfradd casglu i'w weithredu yn 2018/19 ac i wneud penderfyniadau statudol perthnasol ac angenrheidiol eraill.<br><br>Awdur: Sue Deacy – Rheolwr Refeniw; Ruth Donovan - Dirprwy Bennaeth Cyllid, Refeniw, Systemau a Thrysorlys<br><br>Manylion Cyswllt: suedeacy@monmouthshire.gov.uk<br>ruthdonovan@monmouthshire.gov.uk | 233 - 236 |
| viii. | **Cronfa Eglwysi Cwmreig**<br><br>Crynodeb: Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un<br><br>Diben: Diben yr adroddiad hwn yw gwneud argymhell Cabinet o'r Amserlen Ceisiadau am gyfarfod 4 o'r Gr Gweithgor Cronfa'r Eglwys Gymraeg am y flwyddyn a 2017/18 cafodd ei gynnal ar y 9fed o Fedi 2017.<br><br>Awdur: David Jarrett – Uwch Gyfrifydd – Cymorth Busnes | 237 - 248 |

| | |
|---|---|
| | Canolog<br><br>Manylion Cyswllt: davejarrett@monmouthshire.gov.uk |

ix. **Ffordd Crick - Gwerthiant posib i Melin Homes** 249 - 258

| | |
|---|---|
| Crynodeb | Adran/Wardiau sy'n cael eu Heffeithio: Pob un<br><br>Diben: I ystyried gwerthiant arfaethedig safle datblygu Cri<br>Melin Homes.<br><br>Awdur: Debra Hill-Howells - Pennaeth Gwasanaethau Lan<br>Masnachol ac Integredig<br><br>Manylion Cyswllt: debrahill-howells@monmouthshire.gov |

Yours sincerely,

**Paul Matthews**
**Chief Executive**

## PORTFFOLIOS CABINET

| Cynghorydd Sir | Maes Cyfrifoldeb | Gwaith Partneriaeth ac Allanol | Ward |
|---|---|---|---|
| P.A. Fox (Arweinydd) | **Strategaeth a Chyfeiriad Awdurdod Cyfan** CCR Cyd Gabinet a Datblygu Rhanbarthol; Trosolwg Sefydliad; Gweithio Rhanbarthol; Cysylltiadau Llywodraeth; Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; WLGA | Cyngor WLGA WLGA Bwrdd Cydlynu Gwasanaethau Cyhoeddus | Porthysgewin |
| R.J.W. Greenland (Dirprwy Arweinydd) | **Menter** Cynllunio Defnydd Tir; Datblygu Economaidd; Twristiaeth; Rheoli Datblygu; Rheoli Adeiladu; Tai a Digartrefedd; Hamdden; Ieuenctid; Addysg Oedolion; Addysg Awyr Agored; Hybiau Cymunedol; Gwasanaethau Diwylliannol | Cyngor WLGA Twristiaeth Rhanbarth y Brifddinas | Devauden |
| P. Jordan | **Llywodraethiant** Cefnogaeth y Cyngor a Phenderfyniadau Gweithrediaeth; Craffu; Safonau Pwyllgor Rheoleiddiol; Llywodraethiant Cymunedol; Cefnogaeth Aelodaeth; Etholiadau; Hyrwyddo Democratiaeth ac Ymgysylltu: Y Gyfraith; Moeseg a Safonau; Perfformiad Awdurdod Cyfan; Cynllunio a Gwerthuso Gwasanaeth Awdurdod Cyfan; Cydlynu Corff Rheoleiddiol | | Cantref |
| R. John | **Plant a Phobl Ifanc** Safonau Ysgolion; Gwella Ysgolion; Llywodraethiant Ysgolion; Trosolwg EAS; Blynyddoedd Cynnar; Anghenion Dysgu Ychwanegol; Cynhwysiant; Cwricwlwm Estynedig; Derbyniadau; Dalgylchoedd; Cynnig Ôl-16; Cydlynu gyda Choleg Gwent. | Cyd Grŵp Addysg (EAS) CBAC | Llanfihangel Troddi |
| P. Jones | **Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd** Plant; Oedolion; Maethu a Mabwysiadu; Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid; Cefnogi Pobl; Diogelu Awdurdod Cyfan (Plant ac Oedolion); Anableddau; Iechyd Meddwl; Iechyd Cyhoeddus; Cydlynu Iechyd. | | Rhaglan |
| P. Murphy | **Adnoddau** Cyllid; Technoleg Gwybodaeth (SRS); Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Iechyd a Diogelwch; Cynllunio Argyfwng; Caffaeliad; Archwilio; Tir ac Adeiladau (yn cynnwys Stadau, Mynwentydd, Rhandiroedd, Ffermydd); Cynnal a Chadw Eiddo; Swyddfa Ddigidol; Swyddfa Fasnachol | Consortiwm Prynu Prosiect Gwyrdd Cymru | Caerwent |

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.B. Jones | **Gweithrediadau Sir**<br>Cynnal a Chadw Priffyrdd, Rheoli Trafnidiaeth, Traffig a Rhwydwaith, Rheolaeth Stad; Gwastraff yn cynnwys Ailgylchu; Cyfleusterau Cyhoeddus; Meysydd Parcio; Parciau a Gofodau Agored; Glanhau; Cefn Gwlad; Tirluniau a Bioamrywiaeth; Risg Llifogydd. | SEWTA<br>Prosiect Gwyrdd | Goetre Fawr |
| S. Jones | **Cyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol**<br>Ymgysylltu â'r Gymuned; Amddifadedd ar Arwahanrwydd; Diogelwch y Gymuned; Cydlyniaeth Gymdeithasol; Tlodi; Cydraddoldeb; Amrywiaeth; Y Gymraeg; Cysylltiadau Cyhoeddus; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd; Trwyddedu; Cyfathrebu | | Llanofer |

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.